Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen**
**Clinic Road**
**Ynyswen**
**Treorci**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF42 6ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen. Mae'n gwasanaethu tref Treorci a chymunedau eraill ym mhen uchaf Cwm Rhondda. Mae 273 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol sy'n cynnwys 40 o blant oedran meithrin. Mae data swyddogol yn dangos bod 48% o blant yn siarad Cymraeg gartref, ond mae'r ysgol yn nodi mai 23% o ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi lle mai'r Gymraeg yw iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 23% o'r disgyblion â hawl i gael prydau ysgol yn ddi-dâl sydd ychydig yn uwch na'r canran cenedlaethol. Mae 36% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion dysgu ychwanegol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Cafodd y pennaeth ei hapwyntio i'r swydd wythnos cyn yr arolygiad, ond roedd wedi bod yn arwain yr ysgol fel pennaeth gweithredol ers Medi 2011.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen yn 2012-2013 yw £3,013. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf yw £6,197 a'r lleiafswm yw £2,561. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen yn y 90ain safle allan o'r 113 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar lafar mewn nifer fawr o gyd-destunau yn nodwedd gref ar draws yr ysgol; a bod
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu ysgogol ar draws y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, sy'n ymateb yn briodol i anghenion rhan fwyaf y disgyblion.

Fodd bynnag:

- mae'r safonau ar draws yr ysgol yn amrywio'n ormodol, gyda pherfformiad yr ysgol, gan mwyaf, heb fod yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf;
- nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni eu llawn botensial; ac
- mae presenoldeb wedi bod yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir a dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella safonau;
- bod y llywodraethwyr yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol; a bod
- gweithdrefn hunanarfarnu cynhwysfawr wedi cael ei sefydlu, a'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn fanwl.

Fodd bynnag:

- nid yw'r trefniadau diweddar wedi cael digon o effaith ar y gwaith mae'r disgyblion yn ei gyflawni, ac;
- nid yw'r uwch dim rheoli wedi datblygu eu rôl fel arweinwyr strategol yn llawn.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella lefelau presenoldeb y disgyblion er mwyn cymharu'n fwy ffafriol gyda phresenoldeb ysgolion tebyg

A3 Sicrhau bod cynllunio manwl ar gyfer dilyniant ym medrau rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu a phynciau'r cwricwlwm

A4 Codi lefel yr her ar gyfer y plant mwyaf galluog ar draws yr ysgol

A5 Cryfhau prosesau asesu a lledaenu'r defnydd o asesu ar gyfer dysgu

A6 Grymuso rôl yr uwch dim reoli fel arweinwyr strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn cyflawni gwaith o safon briodol mewn gwersi ac mewn llyfrau, ond mae gormod o anghysondeb yn y safonau trwy'r ysgol.

Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar lafar mewn nifer fawr o gyd-destunau yn nodwedd gref ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, dônt yn gynyddol hyderus wrth drafod eu gwaith. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan. Mae hyn yn datblygu ymhellach yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus ac aeddfed mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau llefaredd yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen llyfrau a gwaith eu hunain i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae bron pawb yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth da o'r testun. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau gan ddefnyddio cystrawen gadarn, a geirfa sy'n gysylltiedig â'r thema.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn Saesneg gan drafod eu syniadau'n ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda lefel briodol o rugldер yn y ddwy iaith. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu yn addas mewn ystod o ffurfiau gwahanol a gyda lefel briodol o gywirdeb. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw ychydig o ddisgyblion yn amrywio cystrawennau yn gyson, a lleiafrif sydd yn dewis a dethol geiriau er mwyn creu effeithiau. Ychydig o'r disgyblion sydd yn llwyddo i ysgrifennu mewn ystod o ddulliau estynedig gan roi ystyriaeth lawn i ofynion y darllenydd. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn anniben.

Nid yw medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu yn llawn ar draws y pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion o allu uwch yn cyflawni eu llawn botensial.

Yn 2012, roedd yr ysgol ymysg y 50% isaf wrth gymharu ag ysgolion tebyg yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen ac mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, ac yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Mewn datblygiad personol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd yr ysgol yn y 25% isaf yn y dangosydd pynciau craidd ac mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn yr 50% isaf mewn Cymraeg yn 2012. Dros y tair blynedd diwethaf, nid yw perfformiad yr ysgol yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i ginio am ddim.

Ar y deilliant uwch (deilliant 6+), roedd perfformiad yr ysgol mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn yr 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, ond ymhlith yr 50% isaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ac yn yr 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5+) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg yn Gymraeg, ac yn yr 25% isaf mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd y cyflawniadau ar y lefelau uwch yn y 25% neu'r 50% uchaf yn y ddwy flynedd flaenorol, wedi bod yn y 50% isaf cyn hynny, ac eithrio yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio yn sylweddol well na bechgyn yn Gymraeg a Saesneg ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ac ar y lefelau uwch.

**Lles: Digonol**

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod y gallant droi at y pennaeth, aelodau staff a ffrindiau am gymorth pan fydd angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a bod ymarfer corff rheolaidd, gyda chymryd rhan mewn clybiau niferus ar ôl ysgol yn hybu hyn ymhellach.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Maent yn parchu rheolau disgyblaeth yr ysgol gan ddangos parch tuag at eu cyfoedion.

Mae presenoldeb yr ysgol wedi ei gosod yn y 50% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r absenoldebau heb ganiatâd wedi bod yn uwch na'r ganran genedlaethol.

Mae'r holl ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn cymryd rôl weithredol yn y gymuned. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cael llais amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau sydd yn cyfrannu yn effeithiol at agweddau o gynaliadwyedd.

Prin yw'r enghreifftiau o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau i wella eu gwaith eu hunain. Datblygu'n raddol mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol ar draws yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu ysgogol ar draws y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, sy'n ymateb yn briodol i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylder na dilyniant yn y cynllunio. Hefyd, mae'r diffyg cysondeb a her ar draws y ddau gyfnod allweddol yn rhwystr i'r

disgyblion mwyaf galluog gyflawni yn ôl eu potensial. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol wedi ei datblygu'n llawn.

Mae sylw priodol yn y cynlluniau i ddatblygu medrau cyfathrebu ond nid yw'r cyfleoedd sydd ar gael i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o bynciau wedi eu datblygu'n llawn. Er bod y cynlluniau yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh, anghyson yw'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn llyfrau'r plant.

Mae'r holl staff yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ardal leol ac agweddau ar hanes Cymru hefyd yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio, cystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn addas ac mae hynny'n dechrau cael dylanwad ar arferion y disgyblion. Mae'r pwyllgor eco yn gymorth i sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy. Mae gan y disgyblion rywfaint o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang ond nid yw'r ddarpariaeth wedi ei datblygu'n llawn. Maent yn falch o fedru tystio eu bod yn awyddus i helpu eraill o gefndiroedd llai ffodus na hwy.

**Addysgu: Digonol**

Mae oedolion yn modelu iaith dda, sy'n cyfrannu'n sylweddol at safonau iaith lafar. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n effeithiol at gefnogi dysgu'r disgyblion.

Ym mwyafrif y gwersi, mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus gan wahaniaethu yn llwyddianus. Mae nod y wers yn eglur sydd yn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o ofynion y dasg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi lle nad yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon manwl i herio'r disgyblion mwy abl, nid yw'r disgwyliadau'n ddigon uchel, ac nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ddatblygu yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd a'r sylwadau yn dathlu ymdrech yn briodol. Lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae'r sylwadau yn cyfeirio'n uniongyrchol at y meini prawf llwyddiant ac yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau nesaf i'w cymryd er mwyn gwneud cynnydd. Serch hyn, nid yw hyn yn gyson ar draws y cwricwlwm nac ar draws yr ysgol.

Mae'r gwaith i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau ond nid yw'r broses wedi'i gwreiddio'n gyson ar draws yr ysgol. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu meini prawf llwyddiant yn ystod gwersi, ac o ganlyniad, ychydig sydd yn ymwybodol o'u targedau personol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol i gasglu data ar gyfer tracio cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd addas o'r data er mwyn cynllunio strategaethau ymyrraeth priodol. Nid yw'r asesiadau athrawon yn gyson gywir ar draws yr ysgol. Mae safon yr adroddiadau blynyddol i rieni yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo manteision byw yn iach ac i ddatblygu ffitrwydd disgyblion. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu'n llwyddianus gan weithgareddau allgyrsiol a drefnir gan yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Hyrwyddir datblygiad moesol y disgyblion yn effeithiol ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer eu datblygiad ysbrydol mor gadarn. Caiff y disgyblion eu hannog i fod yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol a'u cymuned ehangach ac mae hyn yn cyfrannu tuag at eu datblygiad personol. Maent yn falch o gael y cyfle i helpu ei gilydd ac eraill i wella'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol gwerthfawr ar faterion addysgol a lles gan gynnwys cymorth proffesiynol pan fo angen. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion y disgyblion. Mae eu hanghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a dewisir rhaglenni cefnogi buddiol ar gyfer y disgyblion hyn. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol arbenigol yn ôl y galw. Mae rhaglenni ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae gweithdrefnau adrodd ar gynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ysgol Ynyswen yn cynnig awyrgylch hapus a chartrefol i'w disgyblion. Mae'n ysgol ofalgar lle caiff pawb eu parchu a'u cefnogi. Ceir amgylchedd ac ymdeimlad cynhwysol sy'n meithrin unigolion cyfrifol a pharod i helpu ei gilydd ac eraill. Mae'r ethos hwn yn seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn yr ysgol. Sicrha'r ysgol ei bod yn cynnig yr un cyfleoedd a phrofiadau i'r holl ddisgyblion beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol a'u gallu.

Ar y cyfan, mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae prinder adnoddau TGCh yn rhwystro datblygiad medrau rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r adeiladau yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ac mae'r ardaloedd allanol yn dechrau ychwanegu at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael yn y dosbarthiadau. Mae buarth yr ysgol yn addas, ond prin yw'r adnoddau i gyfoethogi amser hamdden y disgyblion.

Mae arddangosfeydd o waith a llwyddiannau'r disgyblion ar draws yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu tuag at greu amgylchedd deniadol ac yn cuddio cyflwr llai apelgar rhai o'r muriau. Mae'r safle cyfan yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth newydd yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad strategol yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae wedi llwyddo cyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r llywodraethwyr, staff a'r disgyblion.

Mae nifer o weithdrefnau priodol wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar i sicrhau prosesau cadarn ar gyfer codi safonau a sicrhau cynnydd trwy'r ysgol. Mae'r gweithdrefnau newydd hyn yn rhoi ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a defnyddio data er mwyn codi safonau. Serch hynny, nid yw'r prosesau wedi ymsefydlu digon i effeithio yn gadarnhaol ar safon y gwaith yn llyfrau'r disgyblion.. Mae'r uwch dim rheoli yn dal i ddatblygu eu rôl fel arweinwyr strategol. Er eu bod yn cefnogi gwaith y pennaeth nid ydynt yn cymryd rôl llawn weithredol yn y broses o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae gan arweinwyr pwnc ddealltwriaeth briodol o'r cryfderau a gwendidau o fewn yr ysgol yn eu maes penodol, ond nid ydynt yn cael digon o ddylanwad ar godi safonau ar draws yr ysgol.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith ond nid ydynt yn cael eu gweithredu'n llawn mewn modd cyson. Nid yw cyfleoedd i ddatblygu'r disgyblion fel dysgwyr annibynnol wedi cael eu sefydlu'n llawn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn rhannu gweledigaeth y pennaeth ac yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol. Maent yn rhan o'r broses hunanarfarnu ac o bennu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol, megis codi safonau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen, a chyflwyno rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu a'r fframwaith sgiliau. Fodd bynnag, nid yw rhain wedi ymwreiddio yn llawn yng ngwaith yr ysgol. .

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn adnabod yn glir y mwyafrif o'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Mae trefn newydd yr ysgol o hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys llais y dysgwyr, y rhieni, y staff a'r llywodraethwyr. Gwneir defnydd effeithiol o ganfyddiadau monitro a dadansoddi data i adnabod cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol. Er bod cyfundrefn o graffu ar lyfrau yn ei lle, nid yw wedi arwain at ddigon o welliant yn safonau gwaith y plant.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen weithredol ac yn adnabod blaenoriaethau priodol. Mae cysylltiad agos rhwng blaenoriaethau'r cynllun gwella a chanfyddiadau'r broses hunan arfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy a symiau penodol o gyllid sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd tuag at y targedau yn gyson.

Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol wedi gweithio ar brosiectau llythrennedd ar y cyd gydag ysgolion y clwstwr ac ysgolion yn y teulu, ond nid yw'r effaith i'w gweld yn gyson yng ngwaith y plant. Nid yw'r egwyddor o ledaenu'r arferion gorau ar draws yr ysgol wedi ei datblygu'n llawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol. Mae partneriaeth gref yn bodoli gyda rhieni. Mae cymdeithas rhieni a staff yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd i brynu adnoddau gwerthfawr sy'n cyfoethogi'r dysgu. Cynhelir nifer o nosweithiau gyda'r rhieni i rannu gwybodaeth ac i roi arweiniad a chefnogaeth iddynt ar agweddau ar lythrennedd a rhifedd. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu rhieni i gymryd rôl fwy gweithredol yn addysg eu plant. Mae'r defnydd da o dechnoleg ryngweithiol, llythyron ac amserlen o ddigwyddiadau yn fodd effeithiol i rannu gwybodaeth ac i ddathlu gwaith y disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ymhellach. Mae partneriaeth agos rhwng yr ysgol a'r busnesau lleol. Ceir cysylltiadau effeithiol gyda Chapel Carmel, ac mae'r gweinidog lleol yn ymwelydd cyson â'r ysgol i ddatblygu agweddau moesol ac ysbrydol y disgyblion.

Mae partneriaethau effeithiol gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag Ysgol Tai sy'n cefnogi disgyblion i ymdrin ag elfennau o ymddygiad anghymdeithasol. Mae'r bartneriaeth hon wedi cael effaith bositif ar ymddygiad disgyblion unigol yn yr ysgol.

Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r meithrinfeydd lleol a'r ysgolion uwchradd sy'n hwyluso trefniadau pontio ac yn paratoi disgyblion yr ysgol yn y cam nesaf o'u haddysg. Er bod staff wedi cydweithio gyda'r ysgol uwchradd ac ysgolion eraill ar safoni a chymedroli gwaith, nid yw hyn eto wedi sicrhau bod cysondeb o ran cywirdeb asesiadau athrawon. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda, i gynnal hyfforddiant ar y cyd ac ar brosiectau i godi safonau addysg gorfforol a llythrennedd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff i addysgu'r cwricwlwm yn briodol. Caiff athrawon eu cefnogi'n llwyddiannus gan y cynorthwywyr dosbarth, sydd yn rhoi cymorth da i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn y gwersi, ac yn y sesiynau ymyrraeth.

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion cenedlaethol wrth sicrhau trefniadau athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, sy'n cael eu defnyddio'n briodol.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad holl staff yr ysgol. Darperir cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol a rheoli perfformiad staff yn unigol.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n addas i

hyrwyddo a chyfoethogi’r dysgu.

Mae’r ysgol wedi bod mewn dyled ariannol am wyth mlynedd hyd at y flwyddyn gyllidol ddiwethaf, ond trwy gydweithio gyda’r awdurdod a gwneud arbedion effeithiol, mae’r ddyled bellach wedi ei dileu.  Yn ddiweddar, mae’r corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau cyflenwad priodol o adnoddau i ymateb i anghenion yr ysgol.

O ystyried deilliannau’r disgyblion dros gyfnod, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid yw canlyniadau asesiadau athro 2012 ar y safon ddisgwyliedig (deilliant 5+) mewn datblygiad iaith, datblygiad mathemategol a dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ychydig yn uwch na'r teulu a Chymru.

Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, yr oedd yr ysgol yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol, yn yr 50% isaf mewn datblygiad iaith a dangosydd y Cyfnod Sylfaen, ac yn yr 50% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni'r deilliant uwch (sef deilliant 6) yn 2012 mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn uwch na'r teulu a'r darlun cenedlaethol, ond roedd y canrannau ar gyfer datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwyllianol yn sylweddol is. Roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni'r lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2 (sef lefel 5) yn 2012 yn sylweddol is na'r teulu a'r darlun cenedlaethol ymhob pwnc craidd.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+) yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anghyson mewn cymhariaeth gyda'r teulu a Chymru. Roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd ac mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 2012 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni'r lefel uwch (sef Lefel 5) yn 2012 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canran wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru am dair o'r pum mlynedd diwethaf. Mewn Cymraeg, mae'r canran wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru am dair o'r pum mlynedd diwethaf. Mewn Saesneg, mae'r canran wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru am bedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae patrwm o ferched yn cyflawni'n uwch na bechgyn yng nghyfnod allweddol 2 yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn enwedig mewn iaith, gyda'r bwlch yn fwy ar y lefelau uwch na'r disgwyl.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 120 o holiaduron oddi wrth ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ymatebion yn gyffredinol yn gadarnhaol, ac yn debyg i'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Mae'r disgyblion i gyd yn dweud:

- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth;
- bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dweud:

- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; a'u
- bod yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 38 o rieni i'r holiaduron. Mae'r ymatebion yn gyffredinol gadarnhaol ond mewn rhai agweddau nid ydynt mor bositif â'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Dywed y rhan fwyaf o rieni bod:

- eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd; a bod
- y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau.

Dywed llawer o rieni:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda, bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant yn yr ysgol;
- bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a'u
- bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Tristan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cerian Roberts | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.